

## HERBERT, EDWARD (1583 - 1648), barwn 1af Herbert (o) Cherbury

**Enw:** Edward Herbert  
**Dyddiad geni:** 1583  
**Dyddiad marw:** 1648  
**Priod:** Mary Herbert (née Herbert)  
**Plentyn:** Richard Herbert  
**Rhiant:** Magdalen Herbert (née Newport)  
**Rhiant:** Richard Herbert  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** barwn 1af Herbert (o) Cherbury  
**Maes gweithgaredd:** Perchnogaeth Tir; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig  
**Awdur:** Richard Ithamar Aaron

Ganwyd 3 Mawrth 1583 yn Eyton-on-Severn, mab **Richard** a Magdalen Herbert, castell Trefaldwyn. Aeth i Goleg University, Rhydychen, ym mis Mai 1596. Priododd Mary Herbert yn 1599 a bu'n byw yn Llundain i gychwyn cyn dychwelyd i Drefaldwyn yn 1605; yno cafodd ei ddewis yn ustus heddwch ac yn siryf.

Yn 1608 aeth ar daith i Ewrop - y gyntaf o'r teithiau a ddisgrifir mewn dull mor fywiog yn ei *Life*, un o'r hunangofiannau cyntaf yn yr iaith Saesneg. Dewiswyd ef yn llysgennad Lloegr yn Paris yn 1619, a bu'n byw yno mewn dull pur rwysgfwyr hyd nes collodd y swydd yn 1624. Crewyd ef yn arglwydd Herbert (o) Cherbury yn 1629, eithr ymddengys ei fod yn siomedig am na chafodd ei gydnabod a'i ad-dalu fel y disgwyliai am ei wasanaeth i'r Goron. Yn ystod y Rhyfel Cartrefol yr oedd yn amhleidiol; gwrthododd droeon gydsynio â cheisiadau i ymuno â phlaid y Brenhinwyr. Pan gymerodd llu'r Senedd ei gastell, symudodd Herbert i Lundain, ac yno y bu farw ar 20 Awst 1648.

Yr oedd Herbert yn ŵr golygus, coegfalch, teimladol, ac yn feddylwr dwfn a gwrol - yn gymysgfa ryfedd o athronydd a digrifwas. Yr oedd iddo bersonoliaeth gref a fowldiwyd mewn oes o drawsnewid - o oes prysurdeb a gweithgarwch cyfnod Elisabeth i oes rheswm blynyddoedd olaf cyfnod y Stiwartiaid. Y mae ei *De Veritate*, 1624, yn pontio'r agendor rhwng meddwl cyfnod y Dadeni a'r cyfnod presennol, ac y mae ei ysgrifeniadau ar grefydd yn dangos y ffordd tuag at ddeistiaeth a diwinyddiaeth ryddfrydig y cyfnod diweddarach.

### Awdur

**Yr Athro Richard Ithamar Aaron**, (1901 - 1987)

### Ffynonellau

Barwn Edward Herbert, Lee (gol.), *The autobiography of Edward Lord Herbert of Cherbury* (Gregynog Press 1928)

Smith, *The Poems, English & Latin, of Edward, Lord Herbert of Cherbury* (Oxford 1923)

M. H. Carre (cyf. a gol.), *De Veritate* (1624, 1937)

*De Causis errorum una cum tractatu de Religione Laici, et appendice ad Sacerdotes nec non quibusdam poematibus. (De vita humana disquisitio)* (1645)

H. R. Hutcheson (cyf. a gol.), *Lord Herbert of Cherbury's De religione laici* (1944)

*De Religione Gentilium, errorumque apud eos causis* (1663)

Wright (gol.), *Religio Laici*

*The Modern Language Review*, 28, 1933

R. I. Aaron yn *The Modern Language Review*, 36, 1941

R. I. Aaron yn *Mind*, 54,1945 (y rhain yn delio â llawysgrifau Herbert)

ar athroniaeth Herbert gweler rhagymadroddion M. H. Carre a H. R. Hutcheson (uchod), a Sorley, yn *Mind*, iii, 1894

### Gweithiau

Barwn Edward Herbert, Horace Walpole (gol.), *The life of Edward Lord Herbert of Cherbury: written by himself*(Twickenham 1764)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 46608

Wikidata: Q713004

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA

x

Aaron, R. I., (1953). HERBERT, EDWARD (1583 - 1648), barwn 1af Herbert (o) Cherbury. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 7 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/-HERB-EDW-1583>

Y Bywgraffiadur

Prefatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiolch i  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government